COSVR641

# Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

## Trosolwg

Mae'r safon hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol a chanllawiau swyddogol perthnasol a chyfredol, cyfrifoldebau am iechyd, diogelwch a lles chi'ch hunan ac eraill yn y gweithle, ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle bob amser

P2 nodi peryglon yn y gweithle nad ydynt wedi'u rheoli'n flaenorol ac adrodd amdanynt yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

P3 derbyn cyfrifoldeb am bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, a chydymffurfio â nhw, er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

P4 cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Meini Prawf Perfformiad 1**

**Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle**

K1 beth yw deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles a pham mae'n berthnasol i'r maes galwedigaethol

K2 pa hysbysiadau ac arwyddion rhybudd sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol a'r cyfarpar cysylltiedig

K3 sut i gydymffurfio â mesurau rheoli a nodir mewn asesiadau risg a systemau gwaith diogel

K4 pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

**Meini Prawf Perfformiad 2**

**Nodi peryglon**

K5 beth yw'r peryglon yn yr amgylchedd gwaith

K6 sut y gall amgylchiadau sy'n newid greu peryglon

K7 sut i adrodd am beryglon yn y gweithle

**Meini Prawf Perfformiad 3**

**Polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad**

K8 beth yw polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer iechyd, diogelwch a lles

K9 sut i gymryd cyfrifoldeb gweithredol am iechyd, diogelwch a lles

K10 sut y gall yr hyn y mae unigolion yn ei wneud, a'u hymddygiad, effeithio ar eraill

K11 pa fathau o ddiffoddwyr tân sydd ar gael a sut a phryd i'w defnyddio

**Meini Prawf Perfformiad 4**

**Trefniadau diogelwch**

K12 sut mae trefniadau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Meini Prawf Perfformiad 1**

1 osgoi risg trwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y dilynol
1.1 cynefino
1.2 briffiau
1.3 cymhwyso hyfforddiant blaenorol (defnydd diogel o gyfarpar rheoli iechyd a diogelwch)
2 cydymffurfio â gofynion statudol a/neu hysbysiadau diogelwch ac arwyddion rhybudd sy'n cael eu harddangos yn y gweithle neu ar gyfarpar

**Meini Prawf Perfformiad 2**

3 adrodd am beryglon sy'n cael eu creu oherwydd amgylchiadau sy'n newid

**Meini Prawf Perfformiad 3**

4 ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol am iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
5 cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r dilynol
5.1 ystyried eraill
5.2 dehongli cyfarwyddiadau a roddir i gynnal systemau gwaith diogel
5.3 cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth)
5.4 cynnal arferion gwaith o ansawdd
5.5 cyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw cyfleusterau lles yn y gweithle
5.6 storio a defnyddio cyfarpar i gadw pobl yn ddiogel
5.7 gwaredu gwastraff a/neu ddefnyddiau traul

**Meini Prawf Perfformiad 4**

6 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cynnal diogelwch y gweithle
6.1 yn ystod y diwrnod gwaith
6.2 ar ôl cwblhau gwaith y diwrnod
6.3 rhag personél heb awdurdod (gweithwyr eraill a/neu'r cyhoedd)
6.4 rhag dwyn

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Diffoddwyr tân**

1 dŵr, $CO_2$, ewyn, powdr, hylif sy'n anweddu a'u defnyddiau

**Peryglon**

2 peryglon sy'n gysylltiedig â'r maes galwedigaethol
2.1. adnoddau, gweithle, amgylchedd, sylweddau, asbestos, cyfarpar, rhwystrau, storfeydd, gwasanaethau a gweithgareddau gwaith
2.2. risgiau cyffredin presennol i ddiogelwch
2.3. risgiau cyffredin presennol i iechyd

**Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

3 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol
3.1 mesurau diogelu ar y cyd
3.2 system awyru a gwacáu leol
3.3 cyfarpar diogelu personol
3.4 cyfarpar diogelu anadlol

**Hysbysiadau ac arwyddion rhybudd**

4 gofynion statudol a/neu ganllawiau swyddogol ar gyfer yr alwedigaeth a'r maes gwaith

**Polisïau a gweithdrefnau**

5 yn unol â gofynion y sefydliad
5.1. delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith
5.2. dulliau o gael neu ddod o hyd i wybodaeth
5.3. adrodd
5.4. rhoi'r gorau i weithio
5.5. gwacáu
5.6. risgiau tân a gweithdrefnau gadael yn ddiogel
5.7. ymgynghori a rhoi adborth

**Adrodd**

6 gweithdrefnau adrodd y sefydliad a gofynion statudol

**Cyfrifoldeb**

7 ymddygiad sy’n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles

7.1 cydnabod pryd i roi’r gorau i weithio yn wyneb perygl difrifol a pherygl sydd ar fin codi

7.2 cyfrannu at drafodaethau a rhoi adborth

7.3 adrodd am amgylchiadau sydd wedi newid a digwyddiadau yn y gweithle

7.4 cydymffurfio â gofynion amgylcheddol y gweithle

**Diogelwch**

8 gweithdrefnau’r sefydliad sy’n ymwneud â’r gweithle, y cyhoedd, personél y safle ac adnoddau

Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Construction Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2019 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CITB |
| **RCU gwreiddiol** | COSVR641 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Crefftau Adeiladu, Goruchwylwyr y Crefftau Adeiladu |
| **Cyfres/Set** | Galwedigaethau Trywel (Adeiladu), Plastro (Adeiladu), Peirianneg Simneiau (Adeiladu), Gweithrediadau Deifio Adeiladu, Gweithrediadau Adeiladu a Gwasanaethau Peirianneg Sifil, Rheoli Gweithrediadau Codi (Adeiladu), Ffurfwaith (Adeiladu), Sgiliau Treftadaeth (Adeiladu), Dulliau Adeiladu Arloesol/Modern, Systemau Mewnol (Adeiladu), Gosodiadau Gwrthsafol (Adeiladu), Galwedigaethau Toi (Adeiladu), Gosod Dur (Adeiladu), Gwaith Saer Maen (Adeiladu), Teilsio Waliau a Lloriau (Adeiladu), Dymchwel, Galwedigaethau Coed (Adeiladu), Gweithrediadau Cynnal a Chadw Adeiladau (Aml-grefft), Gweithrediadau Cyrraedd a Rigio (Adeiladu), Galwedigaethau Gwasanaethau Diwydiannol Cysylltiedig (Adeiladu), Galwedigaethau Cladio (Adeiladu), Galwedigaethau Gorffen Addurniadol a Phaentio Diwydiannol (Adeiladu), Gosod Concrit a Rag-gastiwyd (Adeiladu), Ffitiadau Mewnol (Adeiladu), Galwedigaethau Gorchuddion Lloriau (Adeiladu), Triniaethau Inswleiddio ac Adeiladu (Adeiladu), Asffalt Mastig (Adeiladu), Gweithrediadau Pyst Sylfaen (Adeiladu), Gosod Peiriannau (Adeiladu), Gweithrediadau |

| | |
|---|---|
| | Peiriannau (Adeiladu), Gweithrediadau Tyniannu Pyst (Adeiladu), Logisteg Safleoedd (Adeiladu), Galwedigaethau Concrit Arbenigol (Adeiladu), Galwedigaethau Gosod Arbenigol (Adeiladu), Galwedigaethau Gwaith Isadeiledd (Adeiladu), Galwedigaethau Gwaith Uwchadeiledd (Adeiladu), Inswleiddio Thermol (Adeiladu), Gweithrediadau Twnnel (Adeiladu), Saernïo Coed â Pheiriannau (Adeiladu/Allwthiadau Melin Lifio/Dodrefn), Cadw Coed – Rhag-driniaeth Ddiwydiannol (Adeiladu), Rheoli Traffig Dros Dro (Adeiladu), Galwedigaethau Cerfio (Adeiladu), Cynnal Peiriannau neu Beirianwaith (Adeiladu), Systemau Toi Pilenni Gwrth-ddŵr (Adeiladu) |
| **Geiriau Allweddol** | Peryglon; Diogelwch; Lles; Rheoliadau; Arwyddion; Cyfarpar rheoli; Cyfarpar diogelu personol; Cyfarpar diogelu anadlol; System awyru a gwacáu leol; Deddfwriaeth; Asesiad risg |